

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda,
Practis Deintyddol Feidr
Fair**

30 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	14
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	17
6.	Y Camau Nesaf.....	19
	Atodiad A.....	20

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Bractis Deintyddol Feidr Fair, 7 Feidr Fair, Aberteifi, SA42 1DU (rhan o grŵp IDH), yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 30 Mehefin 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Feidr Fair yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Aberteifi. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae Practis Deintyddol Feidr Fair yn darparu gwasanaethau'r GIG yn bennaf, gyda rhai gwasanaethau deintyddol preifat.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, un deintydd locwm rhan amser, un hylenydd rhan amser, tair nyrs, dau dderbynnydd, a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Llenwadau, coronau a phontydd
- Dannedd gosod
- Triniaethau cosmetig
- Gwynnu dannedd
- Triniaethau esthetig i'r wyneb

4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut roedd practis deintyddol Feidr Fair yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau trwy osod holiaduron boddhad cleifion yn y dderbynfa.

Nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod gofal a thriniaeth bob amser yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym. Er bod safon y cyfleusterau clinigol yn dda, canfuom fod angen gwelliannau o ran cadw cofnodion clinigol. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyfarpar radiograffig, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, a gwaredu gwastraff. Roedd ystafell ddadheintio neilltuedig nad oedd yn cydymffurfio â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn gyfan gwbl. Nid oedd y staff wedi derbyn hyfforddiant mewnol ar y broses ddadheintio newydd.

Gwelsom dîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu swyddi. Roedd systemau cadarn ar waith er mwyn sicrhau canllawiau clir ar gyfer y staff, er bod angen mireinio'r weithdrefn a'r polisi ar gyfer cwynion am wasanaethau preifat.

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau trwy osod holiaduron boddhad cleifion yn y dderbynfa.

Gwnaethom anfon holiaduron cleifion at y practis, ac roedd 18 o gleifion wedi cwblhau'r rhain cyn ein harolygiad. Gwnaethom siarad hefyd ag un claf tra ein bod ni yn y practis. Roedd y cleifion wedi'u cofrestru yn y practis ers rhwng pum mlynedd a 35 o flynyddoedd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod yn fodlon ar y driniaeth roeddent wedi'i derbyn (nid oedd un o'r cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth am ei fod wedi cael trafferth yn cysylltu â'r practis dros y ffôn). Er gwaethaf y sylw hwn, dywedodd pawb fod y staff yn gwneud iddynt deimlo bod croeso iddynt. Dywedodd un claf ei fod wedi profi rhywfaint o oedi cyn gweld y deintydd (eto, am ei fod wedi cael trafferth yn cysylltu â'r practis dros y ffôn). Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Rydw i'n fodlon iawn ar y gwasanaeth yn gyffredinol yn y practis hwn. Rydw i wrth fy modd yn dod yma ac ni fyddwn i'n newid unrhyw beth."

"Mae'r staff yn hyfryd, bob amser yn barod eu cymwynas, naill ai pan ydw i yn y practis neu os oes yn rhaid i mi eu ffonio."

"Nid yw'n bosibl cysylltu â'r practis dros y ffôn bob amser. Treuliais o 9am hyd 5pm yn ceisio cael gafael ar y deintydd i wneud apwyntiad, ond ces i fy nhrosglwyddo i'r peiriant ateb bob tro. Mae hyn wedi digwydd nifer o weithiau."

"Mae'r practis bob amser yn ein hatgoffa pryd mae ein hapwyntiadau, ac maen nhw bob amser yn gwrtais iawn. Mae fy mhlant bob amser yn hapus i weld y deintydd, oherwydd mae'n gwneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus."

Pan wnaethom ofyn i'r cleifion ynglŷn â gwybodaeth am driniaethau, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth roedd ei

hangen arnynt yn ddigon manwl. Roedd sylwadau'r cleifion ynglŷn â gwybodaeth am driniaethau'n cynnwys y canlynol:

"Do, roeddwn i'n cyfrannu'n fawr [rhoddwyd gwybodaeth]."

"Ydyn, maen nhw'n barod iawn eu cymwynas."

Dywedodd un claf nad oeddent bob amser yn rhoi gwybodaeth ddigon manwl.

Roedd 14 o gleifion yn gwybod sut i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwnaethom ffonio llinell ffôn y practis i weld a oedd gwybodaeth ar gael ar beiriant ateb, ond canfuom nad oedd cyfleuster o'r fath. Gwnaethom drafod hyn â rheolwr y practis, a ddywedodd wrthym ei fod yn bwriadu gosod system o'r fath yn y dyfodol agos. Gan fod y ffôn wedi'i leoli yn y dderbynfa, gwnaethom awgrymu y dylai'r practis sicrhau bod gan y system newydd wasanaeth gwrando cyfrinachol, fel nad oes modd i'r cleifion sy'n aros i weld deintydd ei glywed. Gwelsom fod y manylion cyswllt y tu allan i oriau wedi eu cynnwys yn nhaflen wybodaeth i gleifion y practis ac ar y ffenestr.

Roedd y practis ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm. Roedd apwyntiadau brys ar gael hefyd. Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, ond awgrymodd un claf y byddai cael amser apwyntiad cynharach neu hwyrach yn ddefnyddiol i bobl sy'n gweithio. Roedd hefyd system neges destun i atgoffa cleifion o'u hapwyntiadau, a dywedodd y cleifion wrthym fod hon yn system dda.

Nododd bron i draean o gleifion yn yr holiaduron nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn, pe byddai angen. Fodd bynnag, gwelsom fod gwybodaeth am gwyno wedi'i harddangos yn y man aros, a'i bod wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon os oedd angen.

Gwelsom holiaduron boddhad cleifion ar ddesg y dderbynfa, a dangosodd rheolwr y practis enghreifftiau inni o rai a gwblhawyd. Defnyddiwyd y rhain i roi adborth i'r practis. Dywedodd y staff wrthym fod sylwadau anffurfiol/llafar wedi eu nodi yng nghofnodion clinigol y cleifion. Gwnaethom awgrymu y dylid defnyddio llyfr i roi cofnod canolog i'r tîm deintyddol, a rhoddwyd hyn ar waith gan y practis cyn inni adael yno. Bydd hyn yn galluogi'r practis i ystyried tueddiadau ac atal unrhyw bryderon rhag cael eu huwchgyfeirio, o bosibl.

Er bod y cleifion wedi nodi yn yr holiaduron eu bod wedi cael eu hysbysu am risgiau, buddiannau a thriniaethau amgen er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth, nid oedd cadarnhad o hyn yng nghofnodion y cleifion. Tynnir sylw at hyn yn y gwelliannau sydd eu hangen yn hwyrach yn yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd pob claf hefyd yn derbyn cynllun triniaethau ysgrifenedig.

Roedd cyfoeth o ddeunydd hyrwyddo iechyd ar gael yn y man aros, ond nid oedd yn hawdd i'r cleifion gael mynediad ato, am ei fod ar ben cwpwrdd ffeilio. Gwnaethom awgrymu y dylid rhoi'r taflenni mewn lleoliad mwy hygyrch. Ni welsom unrhyw wybodaeth ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu. Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael i gleifion, ac roeddent yn cynnwys crynodeb o wybodaeth ddefnyddiol am y practis ac ynglŷn â sut i fynegi pryder. Roedd y rhain i'w gweld yn hen, ond fe'n hysbyswyd bod cynlluniau ar y gweill i ailfrandio grŵp IDH, ac y byddai hyn yn cynnwys taflenni newydd ar gyfer y practisau.

Roedd gan y practis wefan gorfforaethol hefyd, a oedd yn cynnwys manylion am y practis ac yn rhoi canllawiau a gwybodaeth glir i'r cleifion.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod gofal a thriniaeth bob amser yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym. Er bod safon y cyfleusterau clinigol yn dda, canfuom fod angen gwelliannau o ran cadw cofnodion clinigol. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, a gwaredu gwastraff. Roedd ystafell ddadheintio neilltuedig nad oedd yn cydymffurfio'n gyfan gwbl â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05⁴. Nid oedd y staff wedi derbyn hyfforddiant mewnol ar y broses ddadheintio newydd.

Cyfarpar/dogfennaeth radiograffig

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd y dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw, a phroffion, ac roedd y staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio. Ni welsom unrhyw gynlluniau a dynnwyd a oedd yn amlinellu'r manau diogel a'r manau agored wrth gymryd sgan pelydr-X yn yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis lunio cynllun o'r manau a reolir ym mhob ystafell driniaeth ddeintyddol.

Roedd y practis wedi dilyn yr holl weithdrefnau perthnasol ar gyfer hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eu bod yn defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) a'u bod wedi cynnal archwiliadau sicrwydd ansawdd ar y cyfarpar hwn. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel a'i fonitro'n barhaus. Mae angen gwella'r dogfennau radiograffau yn y meysydd canlynol:

- Nid oedd radiograffau'n cael eu gwneud yn ddigon aml, ac nid oeddent yn dilyn y canllawiau a awgrymir.
- Mae angen gwneud defnydd gwell o ddyfeisiau alinio.⁵

⁴Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yw'r canllawiau ynglŷn â dadheintio offer mewn practisau deintyddol gofal sylfaenol a gwasanaethau deintyddol cymunedol.

⁵ Mae dyfeisiau alinio yn helpu'r deintydd i alinio ffilm y sgan pelydr-X â'r dant.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis archwilio cofnodion radiograffig y cleifion er mwyn gwella ansawdd y sganiau pelydr-X a gymerir i helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â gofal a thriniaeth.

Dadebru a chymorth cyntaf

Roedd y staff yn wybodus ynglŷn â'r hyn ddylid ei wneud pe byddai argyfwng meddygol, ac roedd polisi dadebru cyfredol ar waith er mwyn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob aelod o staff yn glir.

Roedd un aelod o staff wedi'i benodi'n swyddog cymorth cyntaf, ac roedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Roedd cyfarpar dadebru priodol a threfnus ar gael i'r staff pe byddai argyfwng meddygol (llewyg). Ar adeg yr arolygiad, roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru o fewn y flwyddyn ddiwethaf, fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU). Roedd hyn yn golygu bod staff wedi eu hyfforddi a bod y cyfarpar ganddynt i reoli argyfyngau meddygol.

Cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys

Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys wedi'u storio'n drefnus mewn lleoliad da a diogel. Roedd system gadarn ar waith i sicrhau bod dyddiadau dod i ben cyffuriau'n cael eu monitro. Roedd system gadarn ar waith ar gyfer ymateb i unrhyw adweithiau niweidiol i gyffuriau, ac i adrodd y digwyddiadau hyn.

Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff clinigol cyfredol ar waith. Roedd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer trin mercwri'n ddiogel.

Dadheintio offer a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1)¹

Roedd gan y practis un ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol, ac nid oedd hon yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau a nodir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1). Canfuom nad oedd llwybr clir ar waith o ran prosesau ar gyfer offer sydd wedi'u defnyddio ac offer glân, ac nid oedd sinc golchi ar wahân ar gyfer golchi dwylo. Gwelsom fod bocsys wedi eu labelu'n glir a'u selio yn cael eu defnyddio i gario offer sydd wedi'u defnyddio ac offer glân yn ôl ac ymlaen i'r ystafell ddadheintio,

ond roeddent yn cael eu storio gyda'i gilydd pan oeddent yn yr ystafell. Mae hyn yn creu risg croes-heintio posibl, ac ni ddylid parhau â'r arfer hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gyfeirio eto at y gweithdrefnau a ddefnyddir gan y staff yn yr ystafell ddadheintio a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Dywedodd y staff wrthym nad ydynt ar hyn o bryd yn llifolchi llinellau dŵr yr uned ddeintyddol fel yr argymhellir, er mwyn sicrhau nad yw'r dŵr yn cael ei heintio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis profi'r dŵr fel yr argymhellir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd yr holl offer yn cael eu rhoi mewn bagiau ar ôl eu sterileiddio, gan nodi'r dyddiad prosesu arnynt. Roedd yr holl offer a wiriwyd o fewn eu dyddiad, ac roedd system fewnol ar waith i wirio bod yr offer yn cael eu defnyddio o fewn amser penodol. Roedd hyn yn golygu bod prosesau addas ar waith i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio yn hyn o beth.

Er bod y staff a oedd yn cwblhau gweithdrefnau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant cyffredinol ar-lein yn y maes hwnnw, gwelsom nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant mewnol a oedd yn benodol i anghenion y practis a'r ystafell ddadheintio newydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r staff sy'n cynnal gweithdrefnau dadheintio gael hyfforddiant priodol ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud.

Gwelsom fod y llyfrau cadw cofnod ar gyfer glanhau offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau safonol a oedd yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd bob dydd.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliad Cymdeithas Atal Heintiau yn ddiweddar, a'i fod hefyd wedi dechrau archwiliad Deoniaeth Cymru o ofynion rheoli heintiau. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i fonitro cydymffurfiad parhaus â gofynion rheoli heintiau, ac i sicrhau bod offer yn ddigon glân a diogel i'w defnyddio ar gleifion.

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a gweld eu bod yn lân, yn daclus ac yn drefnus, a'u bod yn cynnwys cyfarpar perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd niferoedd digonol o offer deintyddol a chyfarpar, i gyd mewn cyflwr da, wedi ei storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwelsom fod digon o eitemau ac offer diogelu untro ar gael i'r cleifion a'r staff eu gwisgo yn ystod y sesiwn driniaeth.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y cywasgydd (dyfais sy'n rhoi cyflenwad o aer glân i bweru offer llaw deintyddol ac amryw offer deintyddol eraill) wedi'i gynnal a'i gadw a'i archwilio yn unol â'r gofynion. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Roedd angen rhoi sylw i safon y cofnodion yn y meysydd canlynol:

- Er bod hanesion meddygol y cleifion yn cael eu diweddarau ym mhob ymweliad, gwelsom nad oeddent yn cael eu cydlofnodi gan y deintyddion, a bod y practis yn defnyddio'r un ffurflenni bob tro. Roedd hyn yn ei wneud yn anodd nodi unrhyw newidiadau a gafwyd. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ddefnyddio ffurflen newydd wrth ddiweddarau hanesion meddygol.
- Roedd y cofnodion yn disgrifio asesu a chyngor, ond nid oedd proses archwilio glir.
- Nid oedd y cofnodion yn dangos cofnod clir o drafod opsiynau triniaeth nac o'r triniaethau yr oedd eu hangen ar gleifion.
- Pan ddefnyddid anesthetig lleol, nid oedd rhif swp, na gwybodaeth am y dos na'r man rhoi.
- Nid oedd hanesion cymdeithasol cleifion yn cael eu cofnodi ar y pryd. Byddai hyn yn amlygu risgiau posibl o ran iechyd y geg ac yn galluogi ymyrraeth gynnar. Gwnaethom awgrymu y gellid cofnodi'r hanesion cymdeithasol a meddygol ar yr un ffurflen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis archwilio cofnodion cleifion er mwyn gwella'r cofnodion yn y meysydd a amlygwyd.

Roedd y practis wedi trefnu rhaglen archwilio clinigol gyda phractis cyfagos, sy'n arfer nodedig. Fel rhan o'r broses hon, mae un practis yn ymweld â phractis arall i archwilio eu cofnodion a'u triniaethau clinigol.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom dîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu swyddi. Roedd systemau cadarn ar waith er mwyn sicrhau canllawiau clir ar gyfer y staff, er bod angen mireinio'r weithdrefn a'r polisi ar gyfer cwynion am wasanaethau preifat.

Staff

Mae'r practis yn cynnig triniaeth ddeintyddol i gleifion y GIG yn bennaf, gyda rhywfaint o driniaethau preifat. Roedd rheolwr practis a oedd yn goruchwyllo'r gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd gan unigolion swyddi penodol, ac roeddent yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymroddedig, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu gwaith.

Roedd y deintydd a'r nyrsys deintyddol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddynt contractau cyflogaeth. Roedd gan yr holl staff dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Mae hyn yn arfer nodedig oherwydd dim ond ar gyfer deintyddion y mae'n ofynnol dan y rheoliadau i gael tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gwelsom fod y dystysgrif a oedd yn cadarnhau cofrestriad y deintyddion gydag AGIC wedi'i harddangos yn y practis, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion imiwnedd hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol. Dywedodd rheolwr y practis nad oedd y practis yn ymwybodol o'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol a gynigid gan y bwrdd iechyd, ond y byddai'n ymchwilio iddo fel mater o frys. Roedd gan y deintyddion a'r hylenydd yswiriant indemniad unigol, ond roedd yr holl aelodau staff eraill yn dod o dan yswiriant corfforaethol grŵp IDH ar gyfer ymarfer clinigol.

Gwelsom dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus wedi'i gyflawni gan y staff clinigol. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cyfleoedd hyfforddi oedd yn berthnasol i'w swyddi. Gwelsom ffeil gynefino a oedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol i staff a oedd yn newydd i'w swydd.

Roedd cyfarfodydd staff ffurfiol wedi eu cofnodi, a gynhelid yn chwarterol. Roedd y cofnodion yn dangos enghreifftiau i ni o wersi a ddysgwyd, a hefyd enghreifftiau o rannu gwybodaeth berthnasol, megis newidiadau o ran polisiâu a gweithdrefnau, a chanlyniadau cyfarfodydd y rheolwyr practis.

Roedd system ar waith ar gyfer arfarniadau ffurfiol, ac roedd y rhain yn cael eu gwneud bob chwe mis. Mae arfarniadau'n ffordd bwysig o roi cymorth ffurfiol i staff wrth iddynt ystyried eu gwaith eu hunain, ac i nodi unrhyw anghenion cymorth ac anghenion o ran datblygiad proffesiynol.

Amddiffyn plant ac oedolion

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant. Roedd polisi amddiffyn plant ar waith a oedd yn cynnwys manylion cyswllt lleol pe bai angen i'r staff atgyfeirio. Roedd hon yn enghraifft o arferion nodedig am ei bod yn sicrhau bod prosesau diogel ac amserol ar waith i amddiffyn plant sy'n agored i niwed.

Roedd staff hefyd wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Roedd polisi ar waith, ac, eto, gwelsom fanylion cyswllt er mwyn gallu atgyfeirio'n ddiogel ac yn amserol pe bai angen.

Cwynion

Roedd gweithdrefn gwyno ar gael a oedd yn ymdrin â'r trefniadau ar gyfer cleifion y GIG. Fodd bynnag, nid oedd gweithdrefn gwyno ar gael i gleifion preifat. . Mae angen dwy weithdrefn gwyno unigol sy'n amlinellu'r gwahanol amserlenni a'r asiantaethau cyswllt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r polisi cwyno ar gyfer cleifion preifat gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (Rheoliad 15).

Roedd cwynion yn cael eu cadw'n ganolog, ar wahân i gofnodion y cleifion. Nid oedd sylwadau a phryderon llafar yn cael eu cofnodi pan gyrhaeddom, ond erbyn diwedd yr ymweliad roedd y practis wedi dechrau defnyddio llyfr i gofnodi'r holl sylwadau llafar/anffurfiol. Bydd hyn yn ei wneud yn bosibl nodi tueddiadau yn gynnar.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gyfforddus yn trafod pryderon â rheolwr y practis. Roedd polisi chwythu'r chwiban wedi'i sefydlu, a gallai'r staff ei ddefnyddio i nodi ac i uwchgyfeirio pryderon yn ffurfiol.

Polisiau a gweithdrefnau

Ar y cyfan, gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol. Roedd y polisiau a'r gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau bod y staff yn gweithio gyda'r wybodaeth fwyaf cyfredol. Roedd tystysgrifau a chofnodion ar waith ar gyfer gwaith cynnal a chadw hefyd.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar i gleifion dderbyn triniaeth.

Roedd y practis wedi'i leoli yng nghanol tref Aberteifi. Roedd y practis wedi'i osod ar dri llawr. Nid oedd hyn yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Roedd tair ystafell driniaeth yn cael eu defnyddio ar y pryd: dwy ar y llawr daear ac un ar y llawr cyntaf. Nid oedd man parcio preifat yn y lleoliad, ond roedd digon o le i barcio ar y stryd, a maes parcio cyfagos.

Canfuom fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw mewn cyflwr digonol y tu mewn, ac roedd wedi'i oleuo, ei wresogi a'i awyru'n briodol. Er ei fod yn lân ac yn daclus, roedd rhai mannau'n edrych yn dreuliedig. Byddai'r ystafell staff yn elwa ar gael ei hailaddurno a chael dodrefn newydd. Trafodwyd hyn â'r cyfarwyddwr clinigol a'r rheolwr ardal, ac fe'n hysbyswyd bod cynlluniau ar y gweill i ailwampio'r practis i gyd-fynd â brandio newydd grŵp IDH. Roedd rhan allanol y practis mewn cyflwr da.

Roedd gwybodaeth ddefnyddiol i'r cleifion wedi'i harddangos y tu allan a'r tu mewn. Roedd arwyddion clir y tu allan i'r practis gydag enwau a chymwysterau'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau'r oriau agor, oherwydd roedd oriau dydd Gwener wedi newid. Roedd rhifau cyswllt y gallai'r cleifion eu ffonio mewn argyfwng yn weladwy o'r tu allan. Roedd rhestrau prisiau yn cael eu harddangos ar y ddesg yn y dderbynfa.

Gwelsom fod y toiledau ar wahân i'r staff a'r cleifion, a bod y rhain yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes-heintio.

Roedd maint y man aros yn addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth. Gan nad oedd swyddfa neilltuedig ar gyfer rheolwr y practis, nid oedd llawer o le y tu ôl i'r ddesg yn y dderbynfa. Fodd bynnag, roedd y staff wedi gwneud defnydd da o'r man hwn, ac roeddent yn ymdrechu i gynnal preifatrwydd y cleifion bob amser. Roedd yr ystafell aros yn cynnwys deunydd darllen ac ychydig o bosteri hyrwyddo iechyd. Roedd man chwarae ar gyfer plant hefyd.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar. Roedd mesurau diogelwch priodol wedi'u sefydlu er mwyn rhwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad.

Er bod gohebiaeth a chofnodion papur y cleifion wedi eu storio'n ddiogel, roedd y cyfrifiadur a ddefnyddid i ddarllen sganiau pelydr-X wedi'i adael heb oruchwyliaeth yn y man aros. Gwnaethom drafod diogelu'r man neu symud y

cyfrifiadur i sicrhau mai staff yn unig oedd yn gallu cael mynediad at wybodaeth cleifion. Dywedodd y practis fod y cyfrifiadur wedi'i gloi â chyfrinair at ddibenion diogelwch, ond cytunwyd i osod arwyddion i nodi mai man ar gyfer staff yn unig ydoedd.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Feidr Fair yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Feidr Fair

Dyddiad yr Arolygiad: 30 Mehefin 2015

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
	Nid oes angen gwneud gwelliannau.			
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal			
Tudalen 9	Mae'n rhaid i'r practis lunio cynllun o'r manau a reolir ym mhob ystafell driniaeth ddeintyddol. [Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 1999; Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000]	Mae rheolwr y practis wedi llunio cynllun ar gyfer pob ystafell driniaeth i ddangos lleoliad y cyfarpar, y ffenestri a'r drysau, ac mae'r cynllun yn nodi bod yn rhaid i'r staff adael yr ystafell pan maent yn gwneud sganiau pelydr-X. Polisi ein cwmni yw bod yr ystafell driniaeth gyfan yn fan a reolir, felly mae'n rhaid i'r staff a'r clinigwyr adael yr ystafell wrth i sganiau pelydr-X gael eu gwneud. Mae'r clinigwyr (goruchwylwyr amddiffyn rhag ymbelydredd) yn gyfrifol am	Rheolwr y Practis/Goruchwylwyr Amddiffyn rhag Ymbelydredd	Wedi'i gwblhau 10/7/15

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		sicrhau bod hyn yn digwydd.		
Tudalen 10	<p>Mae angen i'r practis archwilio cofnodion radiograffig y cleifion er mwyn gwella arferion yn y meysydd a amlygwyd.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5; Safon 4 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol]</p>	<p>Cynhaliwyd trafodaeth rhwng y clinigwyr a'r cyfarwyddwr clinigol i drafod canllawiau pelydr-X a pha mor aml y gwneir sganiau pelydr-X. Mae hyn wedi'i gofnodi a chyflwynwyd cynlluniau gweithredu. Roedd hyn yn ymdrin â sganiau pelydr-X, cyfiawnhad dros wneud sganiau pelydr-X, ac adroddiadau ar sganiau pelydr-X, alinio, a defnydd o ddyfeisiau lleoli wrth wneud sganiau pelydr-X. Archebwyd dyfeisiau lleoli newydd.</p> <p>Bydd yr archwiliadau'n cael eu hadolygu, a bydd cynlluniau gweithredu'n cael eu cyflwyno mewn perthynas â'r gwelliannau sydd eu hangen.</p>	Rheolwr y Practis Cyfarwyddwr Clinigol	Bydd archwiliad arall o sganiau pelydr-X yn cael ei gwblhau erbyn 30 Medi.
Tudalen 11	<p>Dylai'r practis gyfeirio eto at y ffordd y mae'r ystafell ddadheintio wedi'i gosod a sicrhau ei bod yn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.</p> <p>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05]</p>	<p>Mae'r materion wedi cael eu trafod â'r tîm cyfleusterau yn y brif swyddfa a'r tîm cydymffurfiaeth, ac mae trefniadau ar y gweill i adolygu'r ystafell a'i haddasu er mwyn cydymffurfio â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.</p> <p>Dylai rheolwr y practis gofnodi hyn ar ei chynllun gweithredu archwiliad croes-heintio, a'i adolygu'n barhaus .</p>	Rheolwr y Practis Tîm Cydymffurfio Cyfleusterau	7 Medi 2015
Tudalen	Mae'n rhaid i'r practis brofi'r dŵr fel yr	Mae'r practis yn glanhau'r llinell bob wythnos.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
11	<p>argymhellir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.</p> <p>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 19.8]</p>	<p>Maent bellach wedi prynu sribedi profi, a fydd yn sicrhau bod ansawdd y dŵr yn dda.</p> <p>Mae'r busnes yn cyflwyno hyfforddiant croes-heintio i'r holl reolwyr practis yn ne Cymru ar 20 Awst, a bydd yn cyflwyno cynnyrch newydd a chanddo ei system profi sleidiau trochi chwarterol ei hun.</p>	Nyrs Arweiniol	
Tudalen 11	<p>Mae'n rhaid i'r staff sy'n cyflawni gweithdrefnau dadheintio gael hyfforddiant priodol ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 2.4; Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 3]</p>	<p>Mae'r rheolwr wedi dod o hyd i ddarparwr hyfforddiant a fydd yn dod i'r practis. Bydd hyn yn cael ei drefnu unwaith y mae'r ystafell ddadheintio'n cydymffurfio'n llawn.</p> <p>Yn y cyfamser, bydd y rheolwr, ynghyd â'r nyrs arwain, yn adolygu'r prosesau yn yr ystafell ddadheintio, yn unol â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, gan sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ar y broses yn yr ystafell newydd. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gofnodi yn ffeil hyfforddiant staff pob unigolyn. Mae'r practis yn storio blychau cludo ar wahân bellach.</p>	Rheolwr y Practis Nyrs Arweiniol	<p>Hyfforddiant mewnol erbyn 14 Awst</p> <p>Hyfforddiant pellach ar ôl i'r gwaith gael ei orffen yn yr ystafell ddadheintio ym mis Medi 2015</p>
Tudalen 12	Mae angen i'r practis archwilio cofnodion cleifion er mwyn gwella'r cofnodion yn y meysydd a amlygwyd.	Cynhaliwyd trafodaeth rhwng y clinigwyr a'r cyfarwyddwr clinigol i drafod trefniadau cadw cofnodion. Trafodwyd yr holl faterion a amlygwyd yn yr adroddiad â'r cyfarwyddwr clinigol a'r clinigwyr, ac mae cynlluniau gweithredu mewn	Rheolwr y Practis Cyfarwyddwr Clinigol	Archwiliad arall o gardiau cofnodion i'w gwblhau

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	[Safonau Iechyd a Gofal 3.3, 3.5; Safon 4 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol]	perthynas â'r gwelliannau sydd eu hangen. Cynhelir archwiliad arall o sganiau pelydr-X a chofnodion cleifion ymhen tri mis, a bydd hwn yn cael ei adolygu gan y cyfarwyddwr clinigol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau.		erbyn 30 Medi
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
Tudalen 14	Mae'n rhaid i'r polisi cwyno gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Adran 15. [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Adran 15]	Mae'r practis wedi dod o hyd i'r wybodaeth gywir gan y ganolfan gymorth, ac mae ganddo'r polisi cywir a'r wybodaeth cleifion gywir yn eu lle.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd
Ansawdd yr Amgylchedd				
	Nid oes angen gwneud gwelliannau.			

Cynrychiolydd y practis:

Enw (llythrennau bras): Heather Skitt

Teitl: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 7/8/15
